WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu: Addas ar gyfer y Dyfodol? – **Cyngor Sir Fynwy**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 639A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Allison Rees, Rachel Harries a David Wilson, a rheolwyd y rhaglen gan Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae'r Cyngor yn datblygu ei swyddogaeth craffu yn barhaus ac mae'n ymwybodol o'r heriau yn y dyfodol, ond mae angen cryfhau'r trefniadau cymorth ar gyfer pwyllgor craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 6

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei amgylchedd craffu ac mae'n ymatebol i anghenion datblygu aelodau 6

Mae'r gweithgareddau craffu wedi eu cynllunio'n dda yn gyffredinol, ac mae'r Cyngor wedi llwyddo i ryw raddau i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu, ond nid yw pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydymffurfio yn bresennol â gweithdrefnau corfforaethol y Cyngor wrth wneud papurau ar gael i'r cyhoedd 8

Mae'r Cyngor yn adolygu'r swyddogaeth graffu yn rheolaidd ac mae ganddo gamau clir i barhau i wella ac mae swyddogion ac aelodau yn ymwybodol o'r heriau presennol ac yn y dyfodol ar gyfer craffu 11

Atodiadau

Atodiad 1 – argymhellion o adroddiad astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014) 13

Atodiad 2 – canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Archwiliodd yr adolygiad hwn, gyda phob un o’r 22 o gynghorau yng Nghymru, ba mor ‘addas ar gyfer y dyfodol’ yw eu swyddogaethau craffu. Gwnaethom ni ystyried sut y mae cynghorau yn ymateb i’r heriau presennol, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 (Deddf LlCD) o ran eu gweithgareddau craffu, a sut y mae cynghorau yn dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwnaethom ni hefyd archwilio a yw’r cynghorau mewn sefyllfa dda i allu ymateb i heriau’r dyfodol, fel pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus, a’r posibilrwydd o symud tuag at fwy o weithio rhanbarthol gan awdurdodau lleol.

2 Yn rhan o’r adolygiad hwn, gwnaethom ni adolygu’r cynnydd y mae cynghorau wedi’i wneud wrth fynd i’r afael â’r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da** (Mai 2014) (gweler Atodiad 1). Gwnaethom ni hefyd waith dilynol ar y cynigion ar gyfer gwella sy’n berthnasol i graffu y gwnaethom eu cyhoeddi mewn adroddiadau lleol. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys ein hadolygiadau thematig yn 2016-17 o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol mewn Gwasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi dulliau o sefydlu’r egwyddor datblygiad cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu i gyfrannu at rannu arferion a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn cysylltiad â Deddf LlCD;
- darparu sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau’r presennol a’r dyfodol;
- helpu aelodau etholedig i sefydlu arferion craffu effeithiol o ddechrau cylch etholaethol newydd; a
- darparu dirnadaeth o ba mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu blaenorol.

4 I lywio ein canfyddiadau, gwnaethom ni seilio ein dull o adolygu ar y **Canlyniadau a Nodweddion Trefniadau Trosolwg a Chraffu Effeithiol i Lywodraeth Leol** y datblygodd a chytunodd rhanddeiliaid craffu yng Nghymru arnynt yn dilyn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da** (Atodiad 2).

5 Yn ystod mis Tachwedd 2017, gwnaethom ni gyfweld â nifer fach o swyddogion allweddol a chynnal grwpiau ffocws gydag aelodau er mwyn deall eu barn ar drefniadau craffu presennol Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor), ac yn enwedig ar sut y mae’r Cyngor yn ymdrin â’r heriau a nodwyd isod a sut y bwriedir ymateb iddynt.

6 Gwnaethom ni arsylwi ar sampl o gyfarfodydd craffu ac adolygu dogfennau cyfarfodydd perthnasol a roddwyd i aelodau i gefnogi eu swyddogaeth graffu, fel adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Daethom i’r casgliad fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei swyddogaeth graffu ac mae’n ymwybodol o’r heriau yn y dyfodol, ond mae angen cryfhau’r trefniadau

cymorth ar gyfer pwyllgor craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei amgylchedd craffu ac mae'n ymatebol i anghenion datblygu aelodau;
- mae gweithgareddau craffu wedi eu cynllunio'n dda yn gyffredinol, ac mae'r Cyngor wedi llwyddo i ryw raddau i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu, ond nid yw pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydymffurfio yn bresennol â gweithdrefnau corfforaethol y Cyngor wrth wneud papurau ar gael i'r cyhoedd; ac
- mae'r Cyngor yn adolygu'r swyddogaeth graffu yn rheolaidd ac mae ganddo gamau clir i barhau i wella ac mae swyddogion ac aelodau yn ymwybodol o'r heriau presennol ac yn y dyfodol ar gyfer craffu.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu i'w roi mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| Gellid cryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor trwy: | |
| C1 | Sicrhau bod pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydymffurfio â Rheolau Trefniadaeth Mynediad at Wybodaeth yng nghyfansoddiad y Cyngor. |
| C2 | Darparu rhagor o hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i aelodau craffu wella'u dealltwriaeth a'u hystyriaeth o'r Ddeddf wrth gynnal gweithgareddau craffu. |
| C3 | Adolygu lefel, math a chadernid y swyddogaeth cymorth craffu i wynebu heriau yn y dyfodol. |
| C4 | Egluro swyddogaeth yr Aelodau Cabinet wrth fod yn rhan o bwyllgorau dethol i arsylwi. |
| C5 | Asesu effaith y dull gweithdy. |

# Adroddiad manwl

## Mae’r Cyngor yn datblygu ei swyddogaeth graffu yn barhaus ac mae’n ymwybodol o’r heriau yn y dyfodol, ond mae angen cryfhau’r trefniadau cymorth ar gyfer pwyllgor craffu’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

### Mae’r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei amgylchedd craffu ac mae’n ymatebol i anghenion datblygu aelodau

9 Yn ystod ein hadolygiad, dywedodd aelodau a swyddogion fod gan bwyllgorau dethol[1] ddull adeiladol. Nododd Aelodau Cabinet eu bod yn ystyried y swyddogaeth graffu yn rhan sylfaenol o drefniadau llywodraethu a chraffu yn y Cyngor.

10 Darparodd y Cyngor hyfforddiant cynefino ar gyfer yr holl aelodau ar ôl etholiadau lleol mis Mai 2017. Yn ystod ein hadolygiad, mynegodd aelodau bryder ynghylch amseroldeb y rhaglen gynefino. Cydnabu aelodau fod y Cyngor yn ceisio rhoi gwybodaeth i aelodau newydd drwy hyfforddiant cynefino cynnar, ond nododd rhai aelodau fod gormod o wybodaeth mewn cyfnod o amser byr. Dywedodd aelodau eraill nad oedd yn bosibl dilyn yr holl hyfforddiant oherwydd y ffordd y cafodd y sesiynau eu hamseru.

11 Teimlai rhai aelodau craffu nad oedd yr adroddiadau sy’n cynnwys gwybodaeth ariannol a pherfformiad bob amser yn cyfleu gwybodaeth bwysig yn ddigon clir i fod o gymorth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Cynigiwyd hyfforddiant ‘rheoli perfformiad a chraffu ariannol’ i aelodau newydd yn rhan o’u hyfforddiant cynefino swyddogol drwy Raglen Datblygu Aelodau Craffu y Cyngor. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau wrthym eu bod yn ystyried data ar berfformiad a data ystadegol mewn adroddiadau gan swyddogion yn anodd ei ddeall, a bod swyddogion yn defnyddio gormod o jargon yn eu hadroddiadau. Roedd rhai aelodau yn pryderu nad ydynt wedi cael digon o hyfforddiant ar sut i graffu ar gyllidebau a pherfformiad yn effeithiol.

12 Mae’r Cyngor wedi cynnig hyfforddiant i aelodau ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a’r ‘pum ffordd o weithio’ cysylltiedig[2] fel y’u nodwyd yn Neddf LlCD, ond mae presenoldeb yr aelodau wedi bod yn isel. Dim ond pum aelod oedd wedi dilyn hyfforddiant ar adeg ein hadolygiad ym mis Tachwedd 2017, ac felly cafodd yr hyfforddiant hwn ei ailgynnal yn Rhaglen Datblygu Aelodau Craffu y Cyngor ar gyfer dechrau 2018.

[1]Cyfeirir at bwyllgorau craffu fel pwyllgorau dethol yng Nghyngor Sir Fynwy.

[2] Integreiddio, Cynnwys, Atal, Hirdymor a Chydweithredu.

13 Nid yw Deddf LlCD yn rhan ddigon amlwg mewn trafodaethau craffu eto. Yn ystod ein gwaith maes, nododd swyddogion ac aelodau fod ystyried y pum ffordd o weithio yn newydd yn y Cyngor o hyd, ac nid yw wedi ei sefydlu yn ei broses benderfynu hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi diwygio ei dempled ar gyfer adroddiadau swyddogion i gynnwys Asesiad Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gyfuno gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer swyddogion sy'n paratoi adroddiadau i bwyllgorau dethol yn arbennig. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau wrthym yn ystod ein hadolygiad fod angen gwneud Asesiadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fwy amlwg mewn adroddiadau, ac awgrymwyd y dylent gael eu symud i ddechrau pob adroddiad yn hytrach na'r diwedd. Nododd rhai aelodau y byddai hyn yn amlygu'r pwyslais ac yn annog aelodau i ystyried yr wybodaeth yn well wrth graffu ar y problemau, a gwneud argymhellion perthnasol.

14 Mae'r Cyngor yn ymrwymo i wella rhagor ar ei drefniadau craffu. Mae wedi rhoi ystyriaeth i hyfforddiant a datblygiad yr aelodau a'r broses o'u cynefino yn ystod 2017, ac mae wedi teilwra hyfforddiant a datblygiad ychwanegol i aelodau yn ystod 2018 mewn ymateb i anghenion datblygu yr aelodau a'u sylwadau ar y broses gynefino. Mae hyn yn cynnwys 'Swyddogaeth y Cynghorydd Cyfoes', yn ogystal â hyfforddiant diogelu i aelodau. Mae cynllun gwasanaeth cymorth craffu 2017-18 y Cyngor hefyd yn amlwg yn cynnwys yr hyn a ddysgwyd o'i adolygiad gan gymheiriaid o graffu yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2017. Yn ystod ein hadolygiad, cawsom awgrymiadau cadarnhaol gan aelodau ar gyfer rhai meysydd dysgu eraill y byddent yn eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, hyfforddiant ar gydraddoldeb, hyfforddiant ar ffrydio cyfarfodydd yn fyw a siarad cyhoeddus.

15 Cyfyngedig yw'r cymorth penodol ar gyfer craffu yn y Cyngor, a mynegodd aelodau bryderon am lefel a chapasiti y cymorth hwn yn y dyfodol. Mae gan y Cyngor un rheolwr craffu penodedig sy'n uchel ei barch ymhlith yr aelodau, a nodwyd bod y cymorth yn rhagorol. Yn ystod ein hadolygiad, dywedodd rhai aelodau a swyddogion er y gallai'r cymorth ar gyfer craffu fod yn ddigonol ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd y capasiti i gefnogi craffu yn gyfyngedig yn y dyfodol, yn enwedig wrth ddatblygu craffu rhanbarthol ar y cyd, megis yr un ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a chydweithrediadau rhanbarthol ar gyfer partneriaethau neu wasanaethau. Roedd aelodau eraill yn bryderus y gall cyfnodau absenoldeb y rheolwr craffu effeithio ar lefel ac ansawdd y cymorth ar gyfer craffu sydd ar gael i aelodau.

16

## Yn gyffredinol, mae’r gweithgareddau craffu wedi eu cynllunio’n dda, ac mae’r Cyngor wedi llwyddo i ryw raddau i ymgysylltu â’r cyhoedd wrth graffu, ond nid yw pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydymffurfio yn bresennol â gweithdrefnau corfforaethol y Cyngor wrth wneud papurau ar gael i’r cyhoedd

17 Mae pwyllgorau dethol y Cyngor wedi llwyddo i ryw raddau i ymgysylltu â’r cyhoedd pan fo problemau lleol o ddiddordeb penodol wedi codi. Er enghraifft, ffurfiodd aelodau o’r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ynghyd â rhanddeiliaid allweddol ran o grŵp llywio i ystyried asesiad o lety Sipsiwn a Theithwyr yn 2016.

18 Ym mis Mawrth 2017, ystyriodd y Cyd-bwyllgor Dethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Strategaeth Gofalwyr Ifanc y Cyngor ar gyfer 2017-2020. Gwnaeth y Cyngor ymgysylltu â gofalwyr ifanc wrth ddrafftio’r strategaeth, a’u gwahodd i ddod i gyfarfod y pwyllgor dethol pan drafodwyd y strategaeth.

19 Mae’r Cyngor hefyd yn hyrwyddo ‘Fforwm Agored i’r Cyhoedd’ mewn modd cadarnhaol ym mhob pwyllgor dethol drwy gynnig cyfle i aelodau o’r cyhoedd sy’n bresennol siarad.

20 Er bod y rhain yn enghreifftiau da o ymgysylltu â’r cyhoedd mewn pwyllgorau craffu, mae’r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â’r cyhoedd ymhellach, fel y nodwyd yn ei gynllun gwasanaeth cymorth craffu 2017-18 ar gyfer chwarter dau, a oedd yn cynnwys y camau canlynol;

- aelodau craffu i ymgysylltu â’r cyhoedd yn fwy rhagweithiol drwy sioeau teithiol neu drwy gynnal cyfarfodydd penodol gyda thrigolion a chymunedau ar bynciau arbennig;
- codi ymwybyddiaeth o graffu drwy’r cyfryngau cymdeithasol megis Twitter; a
- datblygu cylchlythyr craffu gan y Grŵp Cadeiryddion Craffu er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r swyddogaeth graffu a gwella amlygrwydd y wefan craffu a’i gwneud yn ddiddorol.

Mae’r Cyngor wedi cadarnhau bod y cyfrif Twitter ar gyfer craffu yn fyw ym mis Mai 2017.

21 Drwy ei dudalen we bwrpasol ‘Craffu yn Sir Fynwy’ mae’r Cyngor yn galluogi’r cyhoedd i awgrymu eitemau i graffu arnynt. Ceir rhai enghreifftiau pan fo’r cyhoedd wedi dewis gwneud hyn, fel ar gyfer rheoli cyflymder a darparu band eang. Mae’r materion hyn wedi cael eu cynnwys yn dilyn hyn ym mlaenraglen waith y pwyllgorau dethol perthnasol.

22 Mae grwpiau Gorchwyl a Gorffen Craffu wedi bod yn rhan bwysig o’r broses graffu yn y Cyngor ers sawl blwyddyn, er bod y Cyngor erbyn hyn yn ystyried dewisiadau eraill. Er bod aelodau yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi cymryd rhan mewn

grwpiau Gorchwyl a Gorffen, mae aelodau a swyddogion yn cydnabod y gall gwaith y grwpiau hyn gymryd amser hir i'w gwblhau, a all yn ei dro arwain at oedi o ran gwneud penderfyniadau gan y Cyngor. Felly, yn ystod hydref 2017, cyflwynodd y Cyngor gynllun treialu i ddisodi'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen â dull gweithdy, gan ystyried sut y byddai economi Sir Fynwy yn 2030. Cafodd aelodau a oedd yn rhan o hyn fraslun o'r mater cyn y gweithdy, ac fe'u hanogwyd i ystyried sawl cwestiwn allweddol ymlaen llaw.

23 Nododd aelodau a swyddogion a gymerodd ran yn y gweithdy fod y dull yn mynd i'r afael â'r broblem ynghylch amseroldeb sy'n gysylltiedig â grwpiau Gorchwyl a Gorffen. Er hynny, roedd yn rhy gynnar i asesu effaith y dull hwn ar y gwaith craffu a'r broses gwneud penderfyniadau.

24 Mae'r Cyngor wedi ceisio gwella effeithiolrwydd ei gyfarfodydd craffu. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pwyslais yn y cyfarfodydd, mae pob pwyllgor dethol yn cynnal cyn-gyfarfod 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod. Mae'r aelodau yn cael eu hannog i fod yn bresennol er mwyn datblygu strategaethau cwestiynu ar gyfer y prif gyfarfod i bob eitem ar yr agenda. Mae gan gadeiryddion ac aelodau'r pwyllgorau dethol ganllawiau ar swyddogaeth cyn-gyfarfodydd a chwestiynau cyffredinol y gallai aelodau ddymuno eu gofyn er mwyn craffu ar berfformiad neu bolisi a'u herio. Yn ystod ein gwaith maes, barn y rhan fwyaf o'r aelodau oedd y cynhelir y cyn-gyfarfodydd yn dda gyda phwyslais clir, er y nododd rhai aelodau fod y cyn-gyfarfodydd yn aneffeithiol weithiau oherwydd nad oeddent yn arwain at gyfres o gwestiynau y cytunwyd arni nac at strategaeth gwestiynu. Roeddent yn teimlo bod hyn yn arwain at ddiffyg pwyslais yn y prif bwyllgor dethol a'i bod yn cymryd gormod o amser i'w gynnal.

25 Mae gan y Cyngor drefniadau i gefnogi gweithrediad effeithiol y pwyllgorau dethol yn unol â'r 'rheolau trefniadaeth'. Fodd bynnag, gwnaethom ni ganfod nad yw rheolau trefniadaeth y Cyngor wedi eu rhoi ar waith yn llwyr ym mhwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

26 Gwnaethom arsylwi ar bedwar cyfarfod o'r pwyllgor dethol yn ystod yr adolygiad hwn drwy weddarlledaid, sef:

- 18 Hydref 2017 - pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- 30 Hydref 2017 - pwyllgor dethol Oedolion
- 7 Rhagfyr 2017 - pwyllgor dethol Plant a Phobl Ifanc; ac
- 22 Ionawr 2018 - pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

27 Yn ystod pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 18 Hydref 2017, roedd dwy o'r pedair prif eitem yn ddiweddariadau llafar heb unrhyw wybodaeth ategol ar gael i'r cyhoedd ar gyfer y ddwy eitem hyn. Yn ystod y cyfarfod ar 22 Ionawr 2018, roedd dwy brif eitem ar yr agenda. Nid oedd gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar y wefan ar gyfer un o'r eitemau cyn y cyfarfod. Yn y ddau gyfarfod, nid oedd adroddiadau eglurhaol gan swyddogion ar gael na gwybodaeth ategol ar gyfer unrhyw un o'r eitemau ar yr agenda. Felly, nid oedd yr hyn yr oedd y pwyllgor dethol yn craffu arno yn glir na sut y disgwylir i aelodau graffu heb adroddiadau.

28 Pan fydd swyddogion yn paratoi ar gyfer pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae angen gwybodaeth fanwl o ansawdd da yn brydlon ar aelodau er mwyn iddynt wneud argymhellion ar sail gwybodaeth gadarn. Er mwyn i swyddogion gefnogi aelodau wrth gyflawni eu swyddogaeth graffu, dylai'r wybodaeth i bwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod ar gael ymlaen llaw mewn da bryd cyn cyfarfod y pwyllgor dethol a dylai fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn cydymffurfio â chyfansoddiad y Cyngor. Dylai'r Cyngor wneud yn siŵr bod pwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydymffurfio â Rheolau Trefniadaeth Mynediad at Wybodaeth o fewn cyfansoddiad y Cyngor[3], sy'n nodi:

- mae'r rheolau hyn yn gymwys i bob cyfarfod y Cyngor, y weithrediaeth, pwyllgorau dethol, pwyllgorau maes, y Pwyllgor Safonau a'r pwyllgorau rheoleiddio a bydd y Cyngor yn gwneud copïau o'r agenda a'r adroddiadau sy'n agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn y swyddfa benodol o leiaf pum diwrnod cyfan cyn y cyfarfod.

29 Mae angen i bwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn fwy trylwyr yn ei ddull o adolygu penderfyniadau a threfn lywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae aelodau yn cwestiynu swyddogion y Cyngor ar hyn o bryd, ond nid oedd unrhyw bartneriaid eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bresennol mewn unrhyw un o'r cyfarfodydd Pwyllgor Dethol Gwasanaethau Cyhoeddus y gwnaethom ni arsylwi arnynt. Mae adolygiad o gofnodion cyfarfodydd blaenorol yn dangos mai dim ond mewn un cyfarfod blaenorol o bwyllgor dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr oedd partneriaid yn bresennol ynddo.

30 Yn ystod y pwyllgorau dethol Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc, cafodd pob aelod gyfle i wneud sylwadau a chyfrannodd y rhan fwyaf ohonynt. Roedd y cwestiynau manwl yn dangos fod aelodau, yn gyffredinol, wedi darllen y papurau ac wedi deall y materion. Roedd y trafodaethau rhwng aelodau a swyddogion yn barchus a'r cwestiynau yn glir a pherthnasol. Sicrhaodd y cadeirydd fod bob eitem yn dod i gasgliad a chafodd yr argymhellion ar gyfer pob eitem eu trafod a'u cymeradwyo.

31 Mae gwaith y pwyllgorau dethol wedi ei gynllunio'n dda yn gyffredinol. Mae gan bob pwyllgor dethol flaenraglen waith flynyddol. Caiff aelodau gyfrannu hefyd, ac maent yn cymeradwyo ac yn perchnogi'r blaenraglenni gwaith blynyddol drafft.

32 Mae blaenraglenni gwaith y pwyllgorau dethol yn parhau i fod yn gyfredol a pherthnasol. Adolygir y flaenraglen waith gan bob pwyllgor dethol yn ystod pob cyfarfod. Mae blaenraglenni gwaith y Cyngor a'r Cabinet hefyd ar gael i aelodau'r pwyllgorau dethol yn ystod bob cyfarfod i'w helpu i lunio pynciau i'w hystyried yn y dyfodol.

33 Mae agendâu'r pwyllgorau dethol wedi eu llywio'n dda gan agendâu cyfarfodydd y Cabinet. Caiff blaenraglen waith y Cabinet ei diweddaru yn rheolaidd wrth

[3] Cyfansoddiad y Cyngor, Rhan 4, Rheolau Trefniadaeth - Rheolau Trefniadaeth Mynediad at Wybodaeth, pwynt 1 Cwmpas a phwynt 5 Mynediad at agendâu ac adroddiadau cyn cyfarfodydd.

flaenoriaethau a materion y Cabinet newid. Mae’r Rheolwr Craffu ac aelodau’r pwyllgorau dethol yn derbyn neges e-bost sy’n cynnwys blaenraglen waith y Cabinet wedi’i diweddaru bob dydd Gwener (yr e-bost dydd Gwener). Gofynnir i Gadeiryddion y pwyllgorau dethol a’r Rheolwr Craffu adolygu blaenraglen waith y pwyllgorau dethol a nodi unrhyw newidiadau a phynciau posibl i’w cynnwys ynddi. Mae’r trefniadau hyn yn gwella’r cysylltiadau rhwng gwaith y Cabinet a’r pwyllgor dethol ac mae aelodau’r pwyllgorau dethol a’r Rheolwr Craffu yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau ym musnes y Cabinet.

34 Nodwyd disgwyliadau o ran pryd y dylai swyddogion ac aelodau o’r Cabinet fod yn bresennol mewn pwyllgorau dethol yn fras ym mhrotocol craffu a gweithredu’r Cyngor. Nid yw’n ofynnol i aelodau’r Cabinet fod yn bresennol ym mhob cyfarfod o’r pwyllgorau dethol ac maent yn mynd iddynt dim ond pan gânt eu gwahodd gan bwyllgorau dethol unigol.

35 Fodd bynnag, mae aelodau’r Cabinet yn mynd i bwyllgorau dethol o bryd i’w gilydd i arsylwi, ac weithiau gallai Cadeirydd y pwyllgor ofyn i aelod y Cabinet siarad heb rybudd na gwahoddiad ymlaen llaw. Mae swyddogaeth aelod y Cabinet yn aneglur yn yr achosion hyn. Nid yw’r protocol yn rhoi arweiniad clir o ran swyddogaeth aelodau’r Cabinet mewn achlysuron o’r fath. Gan fod pob pwyllgor dethol yn cael ei ffrydio’n fyw, gallai aelodau’r Cabinet arsylwi ar y cyfarfodydd heb fod yn bresennol yno. Byddai hyn yn darparu eglurder o ran beth yw diben presenoldeb aelodau'r Cabinet, h.y. i’w dwyn i gyfrif gan y pwyllgorau craffu, neu i roi tystiolaeth ar wybodaeth.

36 Mae’r Cyngor yn rhagweithiol wrth ystyried y cyfleoedd posibl i dechnoleg gynorthwyo â’i fusnes. Ar 23 Hydref a 9 Tachwedd 2017, ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a’r Cyngor llawn yn ei dro adroddiad ar Bresenoldeb o Bell mewn cyfarfodydd Cyngor. Ar 4 Hydref 2017, rhoddod y Cabinet gynnig ar bresenoldeb o bell. Roedd aelod o’r Cabinet a thyst arbenigol yn bresennol yn y cyfarfod drwy fideogynadledda. Ar yr amod bod y dechnoleg ar gael, a’i bod yn bodloni gofynion adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ‘Mynychu cyfarfodydd o bell’, gall presenoldeb o bell ei gwneud yn bosibl i aelodau, tystion a wahoddir ac efallai aelodau o’r cyhoedd, gymryd rhan mewn cyfarfodydd na allent fod yn bresennol ynddynt fel arall.

## Mae’r Cyngor yn adolygu’r swyddogaeth graffu yn rheolaidd ac mae ganddo gamau clir i wella ac mae swyddogion ac aelodau yn ymwybodol o’r heriau presennol ac yn y dyfodol ar gyfer craffu.

37 Mae’r Cyngor yn rhagweithiol wrth adolygu ei swyddogaeth graffu. Yn dilyn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru **Craffu Da: Cwestiwn Da**, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, mae’r Cyngor wedi cynnal adolygiadau mewnol ychwanegol o drefniadau craffu yn rhan o’i fframwaith cynllunio perfformiad corfforaethol. Mae’r Rheolwr Craffu yn paratoi cynllun gwasanaeth cymorth craffu blynyddol adeiladol,

sy'n gweithredu hefyd fel cynllun gweithredu ar gyfer gwella trefniadau craffu'r Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad yn y blynyddoedd blaenorol, meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol, amcanion i'r swyddogaeth graffu, camau allweddol, canlyniadau a diweddariadau chwarterol ar gynnydd, cerdyn sgorio cytbwys, yn ogystal â phrif risgiau. Mae diweddariadau chwarterol ar gael i'r cyhoedd yn adran 'Craffu yn Sir Fynwy' o wefan y Cyngor.

38 Mae'r Cyngor hefyd yn hunanwerthuso ei drefniadau craffu yn eang. Yn y cyfnod o fis Mawrth i fis Mai 2017, cwblhaodd 76 o swyddogion ac aelodau (64 o swyddogion, chwe aelod craffu a phedwar ymatebwr anhysbys) holiaduron hunanwerthuso. Roedd yr hunanwerthusiad yn gofyn am farn ar faterion megis swyddogaeth a gwerth y prosesau craffu yn nhrefniadau gwella'r Cyngor, lefel y cymorth i graffu, hyfforddiant a datblygiad yr aelodau, a yw'r prosesau craffu wedi eu cynllunio'n dda, ac i ba raddau y mae aelodau yn eu harwain. Mae'r camau i wella craffu ar sail yr hunanwerthusiad hwn yn rhan o gynllun gwasanaeth cymorth ar gyfer craffu 2017-18.

39 Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu ar gyfer gwella craffu, a gynlluniwyd i amlygu a goruchwylio gwelliannau. Y cynllun gweithredu hwn yw cynllun gwasanaeth blynyddol y Rheolwr Craffu hefyd, ac fe'i defnyddir i lywio, cynllunio ac adrodd ar gynnydd o ran gwelliannau pellach i'r swyddogaeth graffu.

40 Yn ystod ein gwaith maes, cyflwynodd aelodau a swyddogion heriau i graffu ar gyfer y dyfodol yn glir. Nododd swyddogion ac aelodau fod heriau mewnol y gallai'r Cyngor gynllunio ar eu cyfer, yn ogystal â heriau allanol y gallai fod angen i'r Cyngor weithredu arnynt. Yn ôl aelodau, roedd cyni parhaus yn her sylweddol. Mae'r holl aelodau craffu yn cael gwybodaeth ariannol a chyfle i gwestiynu a herio.

41 Disgrifiodd swyddogion ac aelodau rai o'r heriau y bydd y Cyngor yn eu hwynebu o ran craffu yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys uwchsgilio pellach ar gyfer aelodau a chymorth ychwanegol i aelodau ar gyfer craffu'n rhanbarthol ac ar y cyd, er mwyn sicrhau bod cyfraniad gan yr aelodau yn ystyrlon ac yn effeithiol. Her i'r Cyngor fydd sicrhau y gall aelodau sy'n gweithio gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, er enghraifft, drwy geisio sicrhau bod amserau cyfarfodydd a hyfforddiant yn sicrhau presenoldeb da.

# Atodiad 1

## Argymhellion o'r adroddiad o astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014)

Arddangosyn 2: 'Craffu Da? Cwestiwn Da' - argymhellion

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• ddarparu sail resymegol glir ar gyfer pynciau;<br>• canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio | Cynghorau |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| | ‘canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol’ a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd wrth wella’r ffordd y mae’r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â’r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

# Atodiad 2

## Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

Arddangosyn 3: canlyniadau a nodweddion

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn llywio gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae gan graffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella a llywodraethu'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion penodedig sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i gynghorwyr<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae craffu yn darparu atebion hyfyw yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cefnogaeth effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth graffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Caiff y swyddogaeth graffu ei harwain gan Aelodau ac mae'n 'berchen' ar ei rhaglen waith, drwy ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon y gymuned â materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br>iv) Gall rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn rhoi sicrwydd a chydbwysedd ar sail tystiolaeth i brosesau gwneud penderfyniadau y Gweithrediaeth.<br>vii) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio o fewn pwyllgorau craffu. |
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn awr ac yn y dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth graffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodweddir y swyddogaeth graffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi i 'lais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal gael ei glywed fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru